OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 Rhif 1715 (Cy. 229)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Ffordd Caergybi, Betws-y-coed, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *8 Medi 2015* |
| *Yn dod i rym* | *12 Medi 2015* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Llundain – Caergybi (yr A5) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd gan y bydd Pencampwriaethau Rhedeg Mynydd y Byd yn cael eu cynnal ar y ffordd, neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 16A o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)**, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Digwyddiadau Arbennig) 1994, a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi, Dehongli a Chychwyn

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 12 Medi 2015 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Ffordd Caergybi, Betws-y-coed, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2015.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "y cyfnod cau" ("*closure period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 08:00 o'r gloch ar 12 Medi 2015 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(i) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion yr heddlu, y gwasanaeth tân neu'r gwasanaeth ambiwlans;

(ii) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â gwaith ar y ffordd neu oleuadau neu arwyddion traffig neu waith brys i unrhyw garthffos

neu i unrhyw brif bibell neu gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan, neu gyfarpar telathrebu yn y darn o'r ffordd o dan sylw, neu mewn unrhyw dir cyfagos;

(iii) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan un o swyddogion awdurdodedig y digwyddiad i gefnogi'r digwyddiad ac am resymau diogelwch;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw:

i. y darn o'r gefnffordd ym Metws-y-coed ym Mwrdeistref Sirol Conwy sy'n ymestyn o bwynt 10 metr i'r gogledd-orllewin o'i chyffordd â Ffordd yr Eglwys hyd at bwynt 10 metr i'r de-ddwyrain o'i chyffordd â Ffordd Craiglan; a

ii. y darn o'r gefnffordd ym Metws-y-coed ym Mwrdeistref Sirol Conwy sy'n ymestyn o bwynt 10 metr i'r gogledd-orllewin o'i chyffordd â Ffordd yr Eglwys hyd at bwynt 10 metr i'r de-ddwyrain o'i chyffordd â Ffordd yr Orsaf.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiad**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod y cyfnod cau, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r gefnffordd.

**Cymhwyso**

**4.** Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 8 niwrnod ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 8 Medi 2015

*R Morgan*
**RICHARD MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27. Mewnosodwyd adran 16A gan adran 1(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd (Digwyddiadau Arbennig) 1994.
**(2)** Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.